Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus)

Mehefin 2020

## 1. Y cefndir

### Bil Ardrethu Annomestig Llywodraeth y DU (Toiledau Cyhoeddus)

**1.** Cafodd Bil Ardrethu Annomestig Llywodraeth y DU (Toiledau Cyhoeddus) (y Bil)[1] ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 18 Mawrth 2020.

**2.** Mae'r nodiadau esboniadol cysylltiedig â'r Bil yn nodi:

> "This Bill implements the commitments made by the Chancellors of the Exchequer at Budget 2018 and Budget 2020 to introduce a 100% mandatory business rates relief for public lavatories."[2]

**3.** Mae'r Bil yn diwygio adran 43 o *Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1998* sy'n nodi sut y mae cyfrifo rhwymedigaeth talwr ardrethi ar gyfer ardrethi annomestig ar eiddo sydd wedi'i feddiannu.

**4.** Cyflwynwyd Bil tebyg yn Senedd y DU ym mis Mehefin 2019.[3] Wedi i Lywodraeth Cymru osod ei Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil 2017-19[4], cymeradwyodd y Senedd gynnig cydsyniad deddfwriaethol yn ymwneud â'r

[1] Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) (Bil 116) 2019-21, fel y'i cyflwynwyd [Saesneg yn unig]

[2] Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus): Nodiadau Esboniadol , (Bil 116-EN) Mawrth 2020 [Saesneg yn unig]

[3] Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) (HL Bil 185) 2017-19, Mehefin 2019 [Saesneg yn unig]

[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus), Mehefin 2019

Bil hwnnw ar 16 Gorffennaf 2019.[5] Fodd bynnag, methodd y Bil pan gafodd Senedd y DU ei haddoedi ym mis Medi 2019.

**5.** Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng Bil 2017-19 a Bil 2019-21, a'r un yw bwriad y polisi. Fodd bynnag, bydd Bil 2019-21 yn cael effaith ôl-weithredol mewn perthynas â'r blynyddoedd ariannol yn dechrau ar 1 Ebrill 2020 neu wedyn. Mae Cymal 3, sy'n gwneud darpariaeth ariannol ynghylch yr incwm ardrethi busnes y bydd awdurdodau lleol yn ei golli, hefyd yn newydd.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**6.** Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae'n ofynnol cael Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan fod darpariaethau yn y Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

**7.** Ar 7 Mai 2020, gosododd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol[6] ar y Bil gerbron y Senedd.

**8.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 2 Gorffennaf 2020.[7]

### Darpariaethau y mae'n rhaid cael cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**9.** Mae paragraffau 10 - 12 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cynnwys asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

**10.** Mae Atodiad A i'r nodiadau esboniadol cysylltiedig â'r Bil yn rhestru'r cymalau y mae Llywodraeth y DU yn credu bod angen cydsyniad ar eu cyfer.

**11.** Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer yr holl ddarpariaethau yn y Bil i'r graddau y maent yn berthnasol i Gymru.

---

[5] Cyfarfod Llawn, 16 Gorffennaf 2019

[6] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus), Mai 2020

[7] Gweler y Pwyllgor Busnes, Amserlen i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus), Mai 2020; a'r Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus), Mehefin 2020

**12.** Mae paragraff 13 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cynnwys y rhesymau dros wneud y darpariaethau i Gymru yn y Bil. Mae'n nodi:

> "Mae'r posibilrwydd o wneud y newid hwn drwy Fil gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi'i ddiystyru gan nad oes cyfle deddfwriaethol sylfaenol addas a fyddai'n caniatáu i'r rhwymedigaeth ardrethi ar doiledau cyhoeddus gael ei dileu yng Nghymru ar yr un pryd ag yn Lloegr. Mae cynnwys darpariaethau i Gymru yn y Bil yn darparu'r gyfradd sero o ran rhwymedigaeth ardrethi ar gyfer toiledau cyhoeddus yng Nghymru a bydd yn lleihau'r gost o'u cynnal a'u cadw ac fe allai helpu i'w cadw ar agor."[8]

**13.** Mae'r Memorandwm Cydysyniad Deddfwriaethol yn cloi drwy ddweud:

> "Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn ym Mil y DU hwn am resymau amseriad a chydlyniaeth er mwyn i 4 doiledau cyhoeddus yng Nghymru gael eu trin ar sail gyfatebol i'r rhai yn Lloegr. Bydd hyn yn cyfrannu at gyflawni amcanion iechyd y cyhoedd."[9]

# 2. Trafodaeth y Pwyllgor

**14.** Trafodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 8 Mehefin 2020.[10]

## Ein barn

**15.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau hynny yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Nodwn hefyd resymau Llywodraeth Cymru dros gredu ei bod yn briodol gwneud darpariaethau i Gymru yn y Bil.

**16.** At hynny, nodwn y bydd y diwygiadau a wneir gan y Bil, wedi iddynt ddod i rym, yn effeithiol mewn perthynas â'r blynyddoedd ariannol yn dechrau ar 1 Ebrill 2020 neu wedi hynny, sy'n golygu bod y Bil yn cael effaith ôl-weithredol.

---

[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 13
[9] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 15
[10] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 8 Mehefin 2020